Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mr Keith Griffiths
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Rhondda Cynon Taf
The Pavilions
Clydach Vale
Tonypandy
CF40 2XX

Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
08442 640670
gofyn@olderpeoplewales.com

12 Medi 2011

Annwyl Mr Griffiths,

Adolygiad Ysbytai Gofal gydag Urddas a hysbysiad bod yr Adolygiad ar ben

Hoffwn ddiolch i chi am ymateb yn brydlon i'm cais am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'm Hadolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru'. Rwy'n gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech a roddwyd i ymateb i'm cais. Mae'r ymatebion sydd wedi dod i law yn dangos lefel uchel o ymrwymiad i bobl hŷn yng Nghymru. Os bydd y sefydliadau'n cymryd y camau y maen nhw wedi dweud y byddan nhw'n eu cymryd, dylid gweld gwelliant arwyddocaol ym mhrofiadau pobl hŷn yn yr ysbyty yng Nghymru.

Fel y gwyddoch, gofynnais i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ymateb i Argymhelliad 5 ar y cyd â Bwrdd Iechyd Cwm Taf, gan amlinellu sut y bydden nhw'n cydymffurfio ag ef. Os byddai'r penderfyniad yn cael ei gymryd i beidio â chymryd camau, roeddwn yn

gofyn am esboniad dros beidio â chymryd camau. Ches i ddim ymateb yn uniongyrchol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac felly anfonais Hysbysiad Ysgrifenedig yn gofyn am ragor o wybodaeth i'm darbwyllo y byddai buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo drwy gydol y broses o ryddhau pobl hŷn o ysbytai Bwrdd Iechyd Cwm Taf.

Ers hynny, mae ymateb Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i Argymhelliad 5 wedi dod i law. Mae fy nhîm a mi wedi asesu'r ymateb yn drylwyr. Rydyn ni wedi cael cymorth gan banel o gynghorwyr y mae eu henwau wedi'u rhestru ar ein gwefan. Rwy'n fodlon ar ymateb Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac mae'n dda gen i nodi bod yr awdurdod lleol yn cydweithio'n agos â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Cwm Taf i ategu Argymhelliad 5 er mwyn lleihau enghreifftiau o oedi wrth drosglwyddo gofal a chynyddu'r gwaith amlddisgyblaeth.

Gan fod eich ymateb wedi bodloni fy nghais am wybodaeth a fydd yn fy narbwyllo y cydymffurfir ag Argymhelliad 5, mae'r Adolygiad swyddogol fel y mae'n ymwneud â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf bellach ar ben. Bydd fy nhîm a mi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod fy argymhellion i a chynllun gweithredu Bwrdd Iechyd Cwm Taf yn troi'n realiti ymarferol sydd o les i bobl hŷn yng Nghymru. Rydyn ni'n gobeithio cyfarfod â chi yng ngwanwyn 2012 i drafod y cynnydd sydd wedi'i wneud a chyfleoedd i rannu'r arferion gorau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn, cysylltwch ag Anna Buchanan ar 02920 445034 neu anna.buchanan@olderpeoplewales.com.

Yn gywir,



Ruth Marks
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru